# LC1409

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau yma yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 ("Rheoliadau 1992") drwy ddarparu y bydd meddygon sydd wedi cael cydsyniad i weinyddu cyffuriau a chyfarpar o dan Reoliadau 1992 yn cael gwneud cais am gael eu talu o dan y Datganiad o Hawliau Ariannol yng Nghynllun Ansawdd y Gwasanaethau Gweinyddu.

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud o dan y Weithdrefn weithredol ar 15 Tachwedd 2006 a daethant i rym ar 16 Tachwedd 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Deellir y bydd Cynllun Ansawdd y Gwasanaethau Gweinyddu ("y Cynllun") yn cael ei roi ar waith drwy ddiwygio'r Cyfarwyddiadau i'r Byrddau Iechyd Lleol ynglyn â'r Datganiad o Hawliau Ariannol. Mae'r Cyfarwyddiadau hynny'n amlinellu'r taliadau sydd i'w gwneud i gontractwyr y GMS. Er hynny, mae Rheoliadau 1992 hefyd yn cysylltu'r taliad sydd i'w wneud i'r meddygon fferyllol hynny sy'n darparu eu gwasanaethau, yn rhinwedd cydsyniad o dan Reoliadau 1992, â'r taliadau sydd i'w gwneud i Gontractwyr y GMS yn unol â'r Datganiad o Hawliau Ariannol ("yr

SFE"). Bydd y diwygiad arfaethedig i'r Rheoliadau yn darparu bod y cysylltiad â'r SFE yn ymestyn i unrhyw wasanaethau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phroses gweinyddu cyffuriau a chyfarpar a all gael eu darparu gan feddyg fferyllol. Ar hyn o bryd, dim ond at ddarparu cyffuriau a chyfarpar y mae'r cysylltiad yn cyfeirio.

Gan fod y Cynllun yn rhan o'r cytundeb gydag ymarferwyr cyffredinol a negodwyd ar gyfer 2006/07, roedd angen i'r Rheoliadau yma (ynghyd â'r diwygiad i Gyfarwyddiadau'r SFE) ddod i rym ar 16 Tachwedd 2006 er mwyn bod o les i gleifion yng Nghymru a galluogi contractwyr y GMS i wneud cais am daliadau. Hefyd, mae'r Cynllun yn darparu i ymarferwyr cyffredinol roi ymrwymiad o ddau fis i'r Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn dymuno cymryd rhan yn y Cynllun. Ar ôl 1 Chwefror 2007, yr un fath ag yn y Cyfarwyddiadau sy'n diwygio'r SFE, ni chaiff ymarferwyr cyffredinol gymryd rhan yn y Cynllun. Mae hynny'n golygu mai'r dyddiad olaf posibl i'r cynllun yma gael ei roi ar waith yw 1 Rhagfyr 2006. Gan hynny, os na chaiff y Rheoliadau yma (a'r Cyfarwyddiadau sy'n diwygio'r SFE) eu gwneud erbyn y dyddiad hwnnw, yna ni allai contractwyr gymryd rhan yn y Cynllun Ansawdd Gwasanaethau Gweinyddu newydd.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 5 Rhagfyr 2006